------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 22 Mawrth 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 129(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**

Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy): Pa asesiad mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith ar Gymru a gaiff penderfyniad Llywodraeth y DU i gategoreiddio Northern Powerhouse Rail fel prosiect Cymru a Lloegr?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Mesuryddion rhagdalu a gwasanaethau cyngor ynni

(60 munud)

**NDM8219** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu:

a) ei fod yn sgandal genedlaethol bod 600,000 o bobl wedi cael eu gorfodi i ddefnyddio mesuryddion rhagdalu yn 2022 oherwydd na allent fforddio eu biliau ynni;

b) bod rheoleiddiwr ynni Ofgem wedi methu â diogelu aelwydydd bregus drwy ganiatáu i gyflenwyr ynni osgoi gwiriadau priodol;

c) y dylai'r rhai sy'n cael eu gorfodi i ddefnyddio mesuryddion rhagdalu gael eu digolledu'n briodol gan gyflenwyr ynni a'u newid yn ôl yn rhad ac am ddim.

2. Yn nodi:

a) y cafodd cyflenwad ynni 3.2 miliwn o bobl ei dorri y llynedd oherwydd eu bod wedi rhedeg allan o gredyd ar eu mesuryddion rhagdalu;

b) y gallai biliau ynni cyfartalog cartrefi godi hyd yn oed ymhellach, gan roi baich ychwanegol ar aelwydydd sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd oherwydd yr argyfwng costau byw.

3. Yn cydnabod cynllun peilot ynni yn y cartref 2021-22 Llywodraeth Cymru, a oedd yn rhoi cyngor rhagweithiol a chefnogaeth allgymorth i bobl a oedd, neu a oedd mewn perygl o fod, mewn tlodi tanwydd.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno gwasanaeth cyngor ynni yn y cartref ledled Cymru i sicrhau bod pob cartref yn gallu cael y cymorth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt.

**Cefnogwyr**

Alun Davies (Blaenau Gwent)

Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Luke Fletcher (Gorllewin De Cymru)

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Rhianon Passmore (Islwyn)

Rhys ab Owen (Canol De Cymru)

Sarah Murphy (Pen-y-bont ar Ogwr)

Sioned Williams (Gorllewin De Cymru)

Vikki Howells (Cwm Cynon)

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(60 munud)

**NDM8231** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn datgan nad oes ganddi hyder yng Ngweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

## 7 Dadl Plaid Cymru – Cynllun brys ar gyfer y sector bysiau

(60 munud)

**NDM8229** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod tystiolaeth ysgrifenedig y Llywodraeth i bwyllgorau craffu'r Senedd ar y dyraniadau o fewn pob prif grŵp gwariant wedi dweud y byddai'r £28 miliwn a roddwyd i'r cynllun brys ar gyfer y sector bysiau yn 2022-23 yn cael cyllid cyfatebol yn 2023-24, ond bod gweithredwyr bysiau wedyn wedi cael gwybod nad oedd sicrwydd o unrhyw gyllid o 1 Ebrill 2023 ar gyfer y cynllun brys ar gyfer y sector bysiau.

2. Yn nodi nad yw'r estyniad 3 mis i'r cynllun brys ar gyfer y sector bysiau yn cynnig llawer o sicrwydd i weithredwyr bysiau i gynnal gwasanaethau a llwybrau allweddol yn eu hardal yn y tymor hir.

3. Yn mynegi pryder y byddai peidio ag ymestyn cyllid y cynllun brys ar gyfer y sector bysiau yn arwain at ganslo gwasanaethau ar raddfa eang, a fydd yn gadael cymunedau ledled Cymru - cymunedau gwledig yn bennaf - wedi'u hynysu.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn cyllid y cynllun brys ar gyfer y sector bysiau am o leiaf 18 mis i ddarparu sicrwydd ariannol mwy hirdymor i weithredwyr bysiau ledled Cymru.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno opsiynau cyllid diogel mwy hirdymor er mwyn cynnal gwasanaethau bysiau, yn hytrach na chynlluniau cyllido brys.

Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd ar y dyraniadau o fewn pob Prif Grwp Gwariant

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi darparu gwerth dros £150m o gyllid ychwanegol i'r diwydiant bysiau gydol y pandemig a'i bod wedi cefnogi'r diwydiant i adfer ar ei ôl.

2. Yn nodi nad yw nifer y teithwyr ar fysiau wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig a bod patrymau o ran defnydd wedi newid.

3. Yn nodi bod yr estyniad cychwynnol o 3 mis i'r cynllun brys ar gyfer y sector bysiau yn cynnig sicrwydd yn y tymor byr i weithredwyr bysiau er mwyn cefnogi datblygiad rhwydwaith bysiau sylfaenol.

4. Yn cefnogi cynlluniau mwy hirdymor Llywodraeth Cymru i ddiwygio’r diwydiant bysiau drwy reoleiddio.

5. Yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i roi’r gorau i ddyrannu cyllid brys cyn gynted â phosibl gan yn hytrach gyflwyno pecyn cyllid sy’n cefnogi’r trosglwyddiad i fasnachfreinio.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8223** Rhys ab Owen (Canol De Cymru)

Diogelwch tân mewn fflatiau uchel: amserlen glir ar gyfer unioni er mwyn trigolion

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 28 Mawrth 2023

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 14/03/2023 i'w hateb ar 22/03/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG CYLLID A LLYWODRAETH LEOL

**Sian Gwenllian** *Arfon*

1 OQ59302 **(w)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r ymdrechion llwyddiannus sy'n mynd ymlaen yn Arfon a mannau eraill i ddenu mwy o ferched i fod yn gynghrowyr sir?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

2 OQ59305 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol i roi mynediad i amlosgfeydd lleol?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

3 OQ59301 **(e)**

Pa gamau mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i annog pobl dalentog i weithio mewn llywodraeth leol o ystyried effaith yr argyfwng costau byw?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

4 OQ59293 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chydweithwyr llywodraeth leol i symud cronfeydd pensiwn y sector cyhoeddus oddi wrth buddsoddiadau tanwydd ffosil?

**Hefin David** *Caerffili*

5 OQ59320 **(e)**

Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi ei wneud o etifeddiaeth ariannol y fenter cyllid preifat yng Nghymru?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

6 OQ59316 **(w)**

Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog yr Economi am gymorth arainnol ychwanegol i Gyngor Sir Ynys Môn yn sgil cyhoeddiad y 2 Sisters Food Group am gau ei safle yn Llangefni?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

7 OQ59306 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am godiadau treth cyngor yng Ngogledd Cymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

8 OQ59287 **(e)**

Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i ymyriadau cyllido sy'n galluogi cynghorau Cymru i fynd i'r afael ag effaith tlodi wrth baratoi cyllideb y Llywodraeth ar gyfer 2023-24?

**Ken Skates** *De Clwyd*

9 OQ59298 **(e)** Tynnwyd yn ôl

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith chwyddiant uchel ar ariannu gwasanaethau cyhoeddus?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

10 OQ59321 **(e)**

Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi ei wneud o effaith cyllideb wanwyn Canghellor y DU ar Gymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

11 OQ59284 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen buddsoddi i arbed Llywodraeth Cymru?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

12 OQ59308 **(e)**

Sut mae'r Llywodraeth yn sicrhau bod ganddi'r ystadegau sydd eu hangen arni i lywio polisi?

## Y GWEINIDOG MATERION GWLEDIG A GOGLEDD CYMRU, A'R TREFNYDD

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

1 OQ59294 **(e)**

Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Gweinidog yr Economi ynglŷn â bargen twf y gogledd?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

2 OQ59280 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu mannau gwyrdd cymunedol?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

3 OQ59286 (e)

A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella lles anifeiliaid domestig yng Nghwm Cynon?

**Peter Fox** *Mynwy*

4 OQ59303 (e)

Pa gamau mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ddiogelu gwenyn?

**Hefin David** *Caerffili*

5 OQ59319 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr ymgynghoriad sydd i ddod ar ddyfodol rasio milgwn yng Nghymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

6 OQ59297 (w)

Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am uned mamau a babanod i'r gogledd a fyddai'n gwasanaethu pobl Arfon?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

7 OQ59296 (w)

Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi gwneud o effeithiolrwydd gwariant y gronfa datblygu gwledig ar y prosiect Down to Earth?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

8 OQ59300 (e)

A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i reoleiddio bridio cathod?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

9 OQ59312 (w)

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar ymdrechion y Llywodraeth i adfywio economi'r cefn gwlad?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

10 OQ59307 (e)

Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i hybu lles anifeiliaid yn Nwyrain De Cymru?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

11 OQ59292 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wariant y rhaglen datblygu gwledig?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

12 OQ59310 **(e)**

Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hwyluso'r gwaith o ficrosglodynnu cathod a chŵn?